

**Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Medi 2013
yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian**

Yn bresennol:

Mr Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Magnox Wylfa
Ms A Kentish	Rheolwr Cyfathrebu Magnox – Wylfa/Maentwrog/Traws
Mrs Karin White	Magnox Wylfa
M W Elsworth	HP&C Magnox
Mr Mark Thornton	Rheolwr Gwastraff, Safle Wylfa
Mrs C Williams	Cynrychiolydd SJC, Safle Wylfa
Mr M Saunderson	Cynrychiolydd SJC, Safle Wylfa
Dr T Davenport	Arolygiaeth Safle (ONR), Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
V Malachanne	ONR
C MacLean	ONR – EIADR
Mr M O’Hara	Aelod o Is-grŵp Gwastraff SSG
Mr Glenn Vaughan	Awdurdod Digomisiynu Niwclear
Mr R Foxhall	Horizon Nuclear Power
Cyng J Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Cyng K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Cyng Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn – Cadeirydd SSG
Cyng Richard Owain Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Cyng William T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Cyng A Rowlands	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Seiriol
T G Jones	Cyngor Tref Amlwch
Cyng Val Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Cyng W E Rowley	Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn
Cyng E Davies	Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn
Cyng Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyng J Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyng R Hughes	Cyngor Cymuned Mechell
Cyng J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Mr Rhun ap Iorwerth	Aelod Seneddol dros Ynys Môn
Mr R A Jones	Undeb Amaethwyr Cymru
Mr Dewi Lloyd	Uned Datblygu Economaidd – Cyngor Sir Ynys Môn
Mr H Jordan	Ffederasiwn Busnesau Bach, Garej Glan Rhos
Ms Gemma Roberts	Swyddog Cynllunio at Argyfwng, Dŵr Cymru
N Parton	UK Nuclear Restoration
Mrs Ann Llwyd	Cymen – Cyfieithu ar y Pryd
Miss Elen Williams	Cymen - Cofnodion

Ymddiheuriadau:

Mr D Clarke	ONR Civil Nuclear Security
Mr T Conway	Cymdeithas Ymdddeoledigion Wylfa
PC Louise Evans	Heddlu Gogledd Cymru

Mr A Hall	Dŵr Cymru
Mr Peter Harrup	Awdurdod Digomisiynu Niwclear
Mrs Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Miss L Jones	Prosiect Ynys Ynni
Mr Richard Parry Jones	Prif Weithredwr Dros Dro – Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Dylan Williams	Uned Datblygu Economaidd – Cyngor Sir Ynys Môn
Mr P Kennedy	Asiantaeth Safonau Bwyd
Mr T Poole	CPRW
Mr Gordon Malcolm	Magnox Ltd
Ms Michelle Humphreys	Magnox Ltd
Dr J I Jones	Magnox Ltd
Mrs J Milburn	Magnox Ltd
Mr N Monckton	Magnox Ltd
Mrs S Postans	Magnox Ltd
Ms M Wymer	Bodorgan Trust Company Ltd
Mr S Roberts	Preswylwr Lleol
Mr G Warren	Preswylwr o Borth Llechog
Mr J C Jones	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Cyng LI M Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Cyng G W Roberts	Cyngor Tref Amlwch – Is-gadeirydd SSG
Mrs G Jones	Merched y Wawr
Mr Alan Smith	Horizon Nuclear Power

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a derbyniodd yr ymddiheuriadau uchod. Estynnodd groeso arbennig i Dewi Lloyd (Uned Datblygu Economaidd – Cyngor Sir Ynys Môn), Neil Parton (UK Nuclear Restoration), Glenn Vaughan (NDA), a'r Cyng newydd ei ethol Alwyn Rowlands (Cyngor Sir Ynys Môn), a Rhun ap Iorwerth, Aelod newydd y Cynulliad dros Ynys Môn.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i hysbysu'r cyfarfod y byddai'n trosglwyddo'r awenau i'r Cyfarwyddwr Safle, Stuart Law, i gynnal yr etholiadau am Gadeirydd ac Is-gadeirydd, cyn bwrw ymlaen â gweddill yr agenda.

Cadarnhaodd S Law y manylion o safbwynt pwy oedd â'r hawl i bleidleisio a phwy oedd yr enwebeion. Yr enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd oedd Aled Morris Jones a Jac H Jones, ac ar ôl pleidleisio, drwy ddangos dwylo, cafodd Aled Morris Jones ei ailethol yn Gadeirydd.

Aeth S Law ymlaen i ethol Is-gadeirydd. Cafwyd tri enwebai – Gareth Winston Roberts, John Griffith a Julia Dobson.

Ar ôl proses bleidleisio estynedig ail-etholwyd Gareth Winston Roberts yn Is-gadeirydd drwy bleidlais fwrw'r Cadeirydd.

2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2013

Cynigiwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cyng William Hughes ac eiliodd y Cyng Jac Jones.

3. Materion yn codi o'r Cofnodion blaenorol

Nid oedd dim materion yn codi.

4. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

(Symudwyd yr eitem i ddechrau'r agenda).

5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Safle

Bu'r cynhyrchiant yn ardderchog hyd yma, ac roedd safle Wylfa ar hyn o bryd yn rhagori ar ei dargedau. Dywedodd S Law ei bod yn hapus gyda'r symud tanwydd, wrth i'r broses Trosglwyddo tanwydd Rhwng Adweithyddion barhau yn ôl y bwriad. Ni chafwyd dim digwyddiadau nodedig.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar brosiect adnewyddu to cap yr adweithydd, a oedd yn dibynnu i raddau helaeth ar y tywydd.

Roedd gwaith dilysu Cell Storfa Sych 4 wedi'i gwblhau ar ddiwedd Gorffennaf, ac roedd chwech o elfennau tanwydd arbelydredig yn weddill yn y gell. Roedd strategaeth wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd i adfer y tanwydd hwn, sy'n debygol o fod wedi'i fethu ar y dechrau flynyddoedd lawer yn ôl.

Roedd y Cwmni Rheoli Cyfleusterau wedi newid, ac er 1 Gorffennaf 2013 bu Interserve yn darparu gwasanaethau cefnogaeth safle megis gwasanaethau glanhau diwydiannol a domestig, dosbarthu a glanhau dillad gwaith actif ac anactif a chynnal a chadw'r holl ardaloedd allanol.

O safbwynt gweithrediadau'r safle, hyd at 27 Gorffennaf 2013, roedd Wylfa wedi cynhyrchu 1.217TWhrs yn y flwyddyn ariannol hon.

Anfonwyd pymtheg o fflasgiau tanwydd wedi'i ddihysbyddu o Wylfa i Sellafield i'w ailbrosesu cyn belled yn y flwyddyn ariannol hon.

Roedd y cynigion i fwrw ymlaen â chynhyrchu ar y safle hyd at ddiwedd 2015 wedi'u cyflwyno ac wedi cael cefnogaeth.

Roedd un unigolyn wedi anafu ei hun ar y safle, gan wasgu gwaelod ei fys pan gafodd ei ddal rhwng barrau'r llawr yn y safle carbon deuocsid. Aed ag ef i'r ysbyty ac ôl cael triniaeth roedd wedi dychwelyd i'r gwaith ar ei ddiwrnod gwaith nesaf arferol.

Atgoffodd S Law y grŵp am ddigwyddiad fis Rhagfyr diwethaf, pan oedd unigolyn wedi syrthio oddi ar gludwr. Roedd eisiau hysbysu pawb bod yr unigolyn hwn wedi cael adferiad llwyr a'i fod yn ôl yn y gwaith. Ers hynny, gwnaed gwaith i addasu'r cludwyr, a gosodwyd grisiau yn lle'r ysgolion. Yn ogystal, roedd yr ysgolion ar draws y safle wedi cael eu harchwilio.

Ym Maentwrog, gwnaed gwaith sylweddol ar y tyrbin a'r generadur ar dyrbin un. Caiff yr ail dyrbin ei archwilio'r flwyddyn nesaf.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i godi arian i elusennau, gan gynnwys Ras Rafftau'r Great Strait, pan godwyd cyfanswm o £1,800 i Hope House ac RNLI Moelfre.

Roedd S Law eisiau crybwyll achos o dorri'r amserlen cynnal a chadw. Esboniodd fod ganddynt amserlen yr oedd yn rhaid glynu wrthi. Roedd rhywun wedi cynnwys eitem ar yr amserlen nad oedd i fod yno. Ni roddwyd sylw i'r eitem hon – ond gan ei bod ar yr amserlen, ystyriwyd bod yn rhaid i rywbeth gael ei wneud. Cafodd hyn ei nodi.

Cwestiynau

Holodd Mr R A Jones, o safbwynt yr elfennau tanwydd yng Nghell Storfa Sych 4, ers faint y bu yno heb i neb wybod. Amcangyfrifodd S Law oddeutu wyth i ddeng mlynedd. Holodd Mr R A Jones ymhellach ble dylai'r elfennau tanwydd hyn fod wedi bod, ac oni sylwyd eu bod ar goll. Atebodd S Law gan ddweud y dylid bod wedi'u rhoi mewn fflasg i fynd i Sellafield. Holodd Mr R A Jones a yw Sellafield yn gwneud archwiliadau. Esboniodd S Law, unwaith maent yn y fflasg gludo, fod cyfrif yn anodd gan fod yr elfennau wedi'u pentyrru mewn sgip. Yn Sellafield, pan gant eu tynnu o'r fflasg, rhoddir y sgip gyfan yn y pwll storio. Ni chaiff y rhestr danwydd ond ei harchwilio pan gaiff ei baratoi maes o law i'w ailbrosesu. Teimlai Mr R A Jones fod hyn yn dangos diffyg gofal o safbwynt delio â gwastraff niwclear. Gofynnodd Mr R A Jones beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt y tanwydd a ddifrodwyd. Esboniodd S Law nad oedd dim wedi'i ddifrodi - roedd 19 o elfennau tanwydd wedi ei difrodi yng nghell 4 ac roedd y rhain wedi'u tynnu. Ceir un darn bychan, ond ystyriwyd mai gwastraff lefel canolig oedd hwn. Gofynnodd Mr R A Jones pryd fyddai'r chwe elfen yn cael eu symud, ac atebodd S Law y byddai cynllun yn cael ei wneud ac y byddai'n rhaid adnewyddu'r system reoli, felly gallai fod yn oddeutu dwy flynedd. Holodd Mr R A Jones ymhellach am Gell Storfa Sych 5. Atebodd S Law fod hon yn gwbl wag ac nad oedd dim elfennau tanwydd ynddi. Roeddent yn bwriadu aildechrau defnyddio hon i'r dyfodol yn ystod y broses gwagio tanwydd, ond ni fyddent yn rhoi dim tanwydd ynddi tan hynny, a byddai'n rhaid cael cymeradwyaeth y corff rheoleiddio i hynny hefyd.

6. Adroddiad Cadeirydd yr SSG

Cyfeiriodd y Cadeirydd y grŵp at ei adroddiad ysgrifenedig a amlinellai'r dyletswyddau a'r gweithgareddau yr oedd wedi'u cyflawni ers y cyfarfod diwethaf.

Bu mewn cyfarfod ym Manceinion ddydd Mawrth, lle'r oedd y cwmnïau ymgeisio - Reactor Site Solutions (Bechtel, EnergySolutions); Babcock Fluor; CAS Restoration Partnership (CH2M Hill, Areva, Serco); a UK Nuclear Restoration Ltd (AMEC/Atkins) - wedi rhoi cyflwyniad. Byddai'r enillydd yn cael ei gyhoeddi fis Mawrth nesaf, a byddai yna gysylltiad pellach ar ôl hynny.

Diolchodd hefyd i'r Grŵp am ei ailethol yn Gadeirydd, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw lobbio cronfa'r NDA, er budd yr ardal leol.

7. Diweddariad gan yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear

Cyflwynodd Mr Glen Vaughan yr adroddiad ar ran Peter Harrup.

Roedd yr NDA wedi rhannu gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd gasgliadau'r gwaith a wnaethant yn ddiweddar ar reoli stociau plwtoniwm gwahanedig y DU. Mae DECC wrthi'n ystyried y casgliadau ar hyn o bryd a disgwylir y bydd gwybodaeth bellach ar gael yn yr hydref.

Roedd yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol wedi'u cyhoeddi, gan ddatgelu bod cerrig milltir hanfodol wedi'u cyrraedd i dwtio etifeddiaeth niwclear y DU y llynedd.

Roedd yr NDA wedi diweddarau'r cynlluniau gan roi manylion y cyfleoedd i randdeiliaid fynegi'u barn ar faterion strategol. Gall y rhanddeiliaid roi sylwadau ar bapurau opsiynau dewisol a chredadwy neu gyfrannu drwy gyfrwng ymgynghoriadau statudol.

Mae Sizewell hanner ffordd at garreg filltir gwagio tanwydd. Mae dros hanner y 52,945 o elfennau tanwydd yn awr wedi'u cludo o adweithyddion deuol Sizewell A, a disgwylir i'r tanwydd i gyd fod wedi'i wagio erbyn Medi 2014.

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno "Galwad am Dystiolaeth" i gasglu barn am y broses dewis safle ar gyfer Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel – bydd yr ymatebion yn hysbysu ymgynghoriad y bwriedir ei gynnal yn yr hydref.

Roedd yr NDA wedi cwblhau astudiaeth o'r opsiynau ar gyfer storio Gwastraff Lefel Canolig yng nghanolbarth a de'r Alban, gan ddod i'r casgliad y byddai'n fanteisiol storio gwastraff Hunterston B yn storfa Hunterston A.

Roedd ymweliadau safle a gwaith casglu gwybodaeth yn parhau ar gyfer y consortia ymgeisio a oedd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth £7 biliwn am berchnogaeth Magnox RSRL SLCs. Byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi yn 2014.

Cwestiynau

Gofynnodd Mr R A Jones i ble mae'r tanwydd o Sizewell yn mynd, ac a yw'n cael blaenoriaeth dros danwydd o Wylfa. Esboniodd Mr Glen Vaughan ei fod yn mynd i Sellafield, i'r safle ailbroseu, a bod Sizewell yn cael blaenoriaeth i raddau helaethach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ychwanegodd y byddai'r gwaith gwagio tanwydd yn Sizewell yn dod i ben ym Medi 2015.

Ychwanegodd S Law, o safbwynt y rheoli gwirioneddol, y ceid carreg filltir ar gyfer y tanwydd sy'n weddill o Sizewell. Fodd bynnag, pe deuai i'r amlwg y byddai hyn yn effeithio ar gynhyrchiant Wylfa, byddai pethau'n cael eu hail-flaenoriaethu. Gofynnodd Mr R A Jones a fyddai Cell Storfa Sych 5 yn cael ei hailddefnyddio, ac atebodd S Law na fyddai yn ystod y cam gweithredu, dim ond adeg gwagio tanwydd.

8. Diweddariad gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear

Er budd yr aelodau newydd ac i atgoffa pawb, esboniodd Dr Tom Davenport mai rôl yr ONR yn y grŵp hwn oedd ymateb i gwestiynau. Roedd eisiau egluro bod ONR yn cael ei ddisgrifio fel arsylwr, nid aelod, yng Nghylch Gorchwyl y grŵp.

Hysbysodd y grŵp y byddai'n fodlon cymryd unrhyw gwestiynau am yr adroddiad a baratowyd.

Gofynnodd Mr R A Jones a oeddent yn arsylwyr ar y safle, ac a oeddent yn gallu gorfodi pethau ar y safle. Atebodd Dr Tom Davenport mai corff rheoleiddio ydyw pan mae ar y safle, er bod y gwaith hwnnw yn golygu arsylwi hefyd. Esboniodd fod yr ONR yn gorff cymhleth, a'i fod yn cynnal archwiliadau i sicrhau y gwneir popeth yn ddiogel.

Crybwyllodd Mr R A Jones ei bod yn ymddangos nad oedd yr Arolygydd yn hapus gyda'r safonau yn adroddiad Hydref 2012. Atebodd Dr Tom Davenport gan ddweud nad ef oedd yr arolygydd safle bryd hynny, ac na allai wneud sylw felly. Fodd bynnag, roedd yn fwy na bodlon edrych i mewn i'r mater. Teimlai Mr R A Jones fod pobl yn symud o gwmpas o hyd, a bod gwahanol bobl yn edrych ar bethau'n wahanol. Esboniodd Dr Tom Davenport ei bod yn bwysig cofio bod pob arolygydd yn cael yr un hyfforddiant, a bod symud arolygwyr o gwmpas bod tua thair blynedd mewn gwirionedd yn rhan o'r drefn, er mwyn sicrhau nad ydynt yn dod yn rhy gyfarwydd â safle penodol.

Dywedodd y Cyng Jac Jones ei fod wedi mynegi ei bryderon yn y cyfarfod blaenorol nad oedd cynrychiolydd o'r ONR yn bresennol, fel y nodir yn y cofnodion. Roedd yn falch iawn o weld bod cynrychiolydd yn bresennol ac i gadarnhau'r cofnodion. Gofynnodd y Cadeirydd i nodyn gael ei wneud, i fod yn deg, fod cynrychiolydd o'r ONR fel arfer yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.

9. Diweddariad gan Is-grŵp Gwastraff SSG Wylfa

Rhoddodd Mr M Thornton ddiweddariad ar ran yr Is-grŵp Gwastraff. Roedd ganddo un diweddariad pwysig ynglŷn â bygythiad i'r llosgydd ar y safle oherwydd newid mewn polisi gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn bwriadu gostwng terfynau allyriadau'r llosgydd yn unol â'r gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol Ewropeaidd. O'r herwydd, yr opsiynau oedd ar gael oedd naill ai uwchraddio'r llosgydd neu ddefnyddio'r gadwyn gyflenwi.

Ar ôl cynnal Gweithdy Rheoli Gwerth, penderfynwyd os oedd Asiantaeth yr Amgylchedd am fwrw ymlaen â'u cynlluniau, yna y byddai'r gadwyn gyflenwi'n cael ei defnyddio, oherwydd y byddai'r risgiau busnes sy'n gysylltiedig ag uwchraddio'r llosgydd yn rhy fawr.

Mae'n debygol iawn y byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn bwrw ymlaen â'r newidiadau hyn, ac maent yn debygol o ddod i rym yn Ionawr 2014 ar y cynharaf, hyd at ganol 2015.

Cwestiynau

Gofynnodd Mr R A Jones pa mor ddibynadwy oedd contractwyr allanol. Atebodd Mr M Thornton eu bod yn dod yn fwy dibynadwy, a bod hyn yn dod yn fwy amlwg po fwyaf yr oeddent yn gweithio gyda nhw. Teimlai fod gallu'r gadwyn gyflenwi'n dod yn llawer gwell, a dywedodd y byddai llosgydd newydd at y diben hwn ar gael yn ardal Ellesmere Port, i'r dyfodol.

10. Diweddariad ar y Cynllun Cymdeithasol Economaidd

Roedd diweddariad ar y cynllun cymdeithasol economaidd wedi'i gyflwyno gyda'r pecyn cyn y cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd fod Michelle Humphreys ar wyliau, ac y byddai'n gallu ateb unrhyw gwestiynau ar ôl dychwelyd. Yn y cyfamser, atgoffodd y cyfarfod am y porthol ar y we a ddefnyddir i gael gafael ar y grantiau hyn. Anogodd gymunedau a chymdeithasau i fanteisio ar yr arian sydd ar gael.

11. Fforwm Agored a Sesiwn Hawl i Holi

Rhoddodd Claire MacLean o dîm EIADR ONR gyflwyniad byr. Esboniodd, pan mae gorsaf bŵer eisiau digomisiynu, fod yn rhaid iddi gael caniatâd i wneud hynny gan yr ONR. I gael caniatâd, rhaid i'r orsaf bŵer gyflwyno datganiad amgylcheddol, y mae'r ONR yn ei ystyried yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus helaeth.

Daeth ymgynghoriad yr ONR i ben yn Awst, ac roeddent ar hyn o bryd wrthi'n ffurfio barn. Fodd bynnag, hoffai hysbysu'r cyfarfod fod y rhan fwyaf o'r sylwadau a ddaeth i law yn ymwneud ag ecoleg, traffig a thrafnidiaeth, twristiaeth, iaith ayb, ond na nodwyd dim byd sylweddol.

Roeddent yn gobeithio rhoi caniatâd i ddigomisiynu'n fuan iawn, a byddai'r dogfennau ar gael i bobl eu gweld bryd hynny.

12. Unrhyw fater arall

Gwahoddodd y Cadeirydd Rhun ap Iorwerth, Aelod y Cynulliad dros Ynys Môn i ddweud gair neu ddau.

Diolchodd Rhun ap Iorwerth i bawb am y croeso. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol, bu cryn siarad am Wylfa yn bendant – Wylfa B yn enwedig, ac roedd eisiau dweud yn gwbl glir ei fod

yn gefnogol o gyfleoedd economaidd ar Ynys Môn. Dywedodd fod yr SSG wedi chwarae rôl bwysig yn y berthynas rhwng Wylfa a'r bobl, a'i bod yn bwysig i'r corff hwn aros yn gryf. Diolchodd i S Law am ei groeso, gan ddweud ei fod yn gobeithio y gallent gydweithio'n agos i sicrhau bod Wylfa yn parhau â'i gwaith i'r dyfodol.

13. Cyfarfodydd i'r dyfodol yn 2013

Nododd y Cadeirydd ddyddiad y cyfarfod nesaf, ~~Rhagfyr 12 2013~~ - Ionawr 23 2014. Daeth y cyfarfod i ben am 4.10pm.

*** Nodyn ar ôl y Cyfarfod: bydd Cadeirydd yr SSG yn cwrdd â Thîm Gweithredol Magnox ar 12 Rhagfyr 2013 - cynhelir cyfarfod nesaf yr SSG ddydd Iau 23 Ionawr 2014 (i ddechrau am 15:00 yn Ystafelloedd Eleth/Eilian)**